**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Economi ac Isadeiledd

**Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 24 Ebrill 2018 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| N J Davies | L S Gibbard | O G James |
| S M Jones | W G Lewis | P M Matthews |
| T M White | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Caritas Adere | Gweithrediaeth Gyfreithiol |
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): V M Evans, J W Jones a/ac P Lloyd

---

**46 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

**47 Adborth Aelodau - Astudiaeth Dichonolrwydd - Troi Stryd y Gwynt yn Barth Cerddwyr.**

Diolchodd yr Is-gadeirydd i'r aelodau hynny a oedd wedi cyflwyno sylwadau i'r Cadeirydd drwy e-bost, yn dilyn cyflwyniad a thrafodaeth yn y cyfarfod diwethaf.

Dywedodd y gallai aelodau barhau i gyflwyno eu barn/sylwadau drwy e-bost iddo ef ei hun neu i'r Cadeirydd, ac y byddai'r rhain yn cael eu hanfon ymlaen at Lisa Wells.

Siaradodd y Cynghorwyr T M White ac L S Gibbard eto am y sylwadau a gyflwynwyd ganddynt yn electronig, gan gyfeirio at y meysydd canlynol: y posibilrwydd o ymweliad safle/tro o gwmpas yr ardal, cefnogi parth i gerddwyr yn ystod y dydd ac opsiwn un lôn, hyrwyddo Stryd y Gwynt yn well, materion ynghylch celfi stryd, casglu sbwriel, "glasu'r" ardal gwneud yn fawr o hanes a phensaernïaeth yr ardal leol.

Amlinellodd y Cynghorydd SM Jones y posibilrwydd o lasu'r ardal yn fwy a chyflwyno mwy o flodau i'w gwella.

**48 Adroddiad blynyddol ar gyfer 2017/18 y rhaglen waith.**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Lleoedd adroddiad trosolwg a oedd yn crynhoi'r testunau eang a archwiliwyd ac a drafodwyd gan y pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig ddiwethaf.

Roedd y rhain yn cynnwys y meysydd canlynol:

- Trosolwg o'r Fargen Ddinesig;
- Cerdyn y Dinesydd;
- Troi Stryd y Gwynt yn barth i gerddwyr;
- Coridor yr Afon;
- Strategaeth Trafnidiaeth y Dyfodol a Thai;
- Tai yng nghanol y ddinas;
- Bargen Ddinesig Bae Abertawe;
- Abertawe a'r Dinas-ranbarth
- Tai Cydweithredol

Mynegodd Aelodau, er eu bod yn croesawu'r amrywiaeth eang o destunau a phynciau a drafodwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yr hoffent gael diweddariadau/adroddiadau cynnydd am bob un o'r meysydd pwnc uchod yn ystod y flwyddyn ddinesig nesaf, a bod angen ffocws manylach a chliriach ar rai meysydd pwnc mwy penodol er mwyn symud materion yn eu blaenau a phenderfynu arnynt.

**Penderfynwyd** nodi'r adroddiad blynyddol ac y dylai'r cynllun gwaith ar gyfer 2018/2019 adlewyrchu'r materion a amlygwyd uchod.

## 49 Cynllun Gwaith PDChP yr Economi ac Isadeiledd - 2018/2019. (Trafodaeth)

Mynegodd yr Is-gadeirydd, yn ychwanegol at yr adborth a'r drafodaeth a gafwyd ar gyfer Cofnod 48 (uchod), y dylid ychwanegu'r holl eitemau a amlygwyd uchod at y Cynllun Gwaith er mwyn cael diweddariadau yn ystod y flwyddyn ddinesig.

Trafododd aelodau ymhellach y meysydd a amlinellir isod a'u hamlygu fel meysydd y gallai'r pwyllgor neu grwpiau tasg a gorffen posib ymchwilio iddynt yn fanylach yn ystod y flwyddyn:

- Troi Stryd y Gwynt yn barth i gerddwyr; (diweddariad i gyfarfod mis Mehefin)
- Cynigion ar gyfer Cerdyn y Dinesydd;
- Ardaloedd siopa y tu allan i'r ddinas;
- Materion anabledd;
- Coridor yr Afon;
- Cerbydlu Gwyrdd;
- Polisi Isadeiledd Gwyrdd.

Mynegodd yr Is-gadeirydd y byddai'n trafod y materion a'r pynciau a godwyd uchod â'r Cadeirydd cyn y cyfarfod nesaf.

**Penderfynwyd** ychwanegu'r materion a amlinellwyd uchod (ac yng Nghofnod 48) at y cynllun gwaith yng nghyfarfod cyntaf y pwyllgor ym mis Mehefin.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.50 pm

**Cadeirydd**